



Parc Tŷ Glas Llanisien Llanishen Caerdydd Cardiff Cymru Wales CF14 5DU
Epost Email helo@s4c.co.uk / Gwefan Website s4c.co.uk
Ffôn Phone +44(0)29 2074 7444 / Ffacs Fax +44(0)29 2075 4444

Datganiad Polisi Rhaglenni S4C 2010

Cyhoeddwyd ar 18.03.2010

1. Rhagarweiniad

- 1.1 Dyletswydd statudol S4C yw i ddarparu ar deledu digidol:-
Ystod eang o raglenni o safon uchel ac amrywiol, gyda'r nifer helaeth o raglenni yn yr iaith Gymraeg.
- 1.2 Mae gan S4C yr hawl i ddarparu ar deledu analog:-
Ystod eang o raglenni o safon uchel ac amrywiol, gyda'r nifer helaeth o raglenni yn y Gymraeg. Yn ystod yr oriau brig (rhwng 18.30 a 22.00) rhaid i'r mwyafrif o'r rhaglenni fod yn Gymraeg. Rhaid i'r rhaglenni yn yr iaith Saesneg fel arfer fod yn rhaglenni sy'n cael eu darlledu ar Channel 4.
- 1.3 Erbyn diwedd mis Mawrth 2010, bydd y broses o newid i ddigidol wedi ei chwblhau yng Nghymru. O bryd hynny ymlaen bydd S4C yn wasanaeth digidol cyflawn yn yr iaith Gymraeg.
- 1.4 Yn dilyn cais ar y cyd â Channel 4, llwyddwyd i sicrhau gofod i ddarlledu S4C mewn Manlyder Uwch ar deledu digidol daearol yng Nghymru. Bydd S4C Manlyder Uwch yn lansio yn y Gwanwyn.
- 1.5 Yn dilyn adolygiad o S4C2, bydd S4C yn cadarnhau cynlluniau ar gyfer ei hail sianel.
- 1.6 Byddwn yn parhau â'r gwaith o adolygu'r Gyllideb sydd ar gael ac yn addasu ein gwariant er mwyn cyflawni ein dyletswyddau statudol ac yn unol â blaenoriaethau strategol. Byddwn yn parhau i gynllunio o fewn cyd-destun economaidd anodd.
- 1.7 Yn ogystal â rhaglenni a gomisiynir yn uniongyrchol gan S4C, mae o leiaf 10 awr o raglenni yr wythnos yn cael eu darparu gan y BBC fel gofyniad statudol ac o fewn fframwaith y Cytundeb Partneriaeth Strategol. Fe ddaw'r Cytundeb presennol i ben ar ddiwedd 2009 ac rydym yn y broses o'i adnewyddu gyda'r BBC.
- 1.8 Yn ogystal â'r dyletswyddau statudol, bydd dim llai na 25% o'r holl oriau darlledu gwreiddiol yn cael eu cynhyrchu gan gwmnïau annibynnol, rydym yn ymrwymo i barhau i sicrhau y bydd o leiaf 95% o'r oriau a gomisiynir yn uniongyrchol gan S4C yn 2010 yn cael eu cynhyrchu gan gwmnïau annibynnol.
- 1.9 Byddwn yn parhau i ddefnyddio proses gomisiynu ddi-dor er mwyn annog creadigrwydd trwy gydol y flwyddyn ac yn parhau â'n polisi tendro agored fel dull o sicrhau gweithredu cystadleuol. Yn gynyddol, rydym yn cynnal proses dendr i gomisiynu swmp o raglenni er mwyn sicrhau gwerth am arian.
- 1.10 Byddwn yn ymrwymo i sicrhau bod ein perthynas â'n cynhyrchwyr yn agored ac effeithiol. Mae perthynas S4C gyda'r sector cynhyrchu annibynnol wedi ei diffinio yng nghyd-destun y Cod Ymarfer, y Telerau Masnach ar sail egwyddorion masnachu teg, y Cynllun Corfforaethol a bwriadau'r Strategaeth Cynnwys. Mae'r Cod Ymarfer a'r Telerau Masnach yn y broses o gael eu diweddarau.
- 1.11 Bydd Gwifren Gwylwyr S4C ar gael trwy gydol y flwyddyn o leiaf o 09.00 tan 22.00 i dderbyn sylwadau ac ymholiadau gan ein gwylwyr ar 0870 6004141 neu gwifren@s4c.co.uk
- 1.12 Byddwn yn hyrwyddo ein gwasanaethau mynediad ac yn hybu dealltwriaeth o faterion amrywiaeth.

2. Cyflwyniad i Wasanaeth Rhaglenni S4C yn 2010

- 2.1 Cafodd Strategaeth Cynnwys 2009 ei llunio ar gyfer pontio dechrau a diwedd y broses o drosglwyddo i ddigidol. Bydd y cyfnod deublyg presennol pan fo rhai o'r gynulleidfa yn gwyllo S4C ar y llwyfan analog ac eraill ar lwyfan digidol yn dod i ben ym mis Mawrth 2010. Bryd hynny bydd holl gynulleidfa S4C yn wylwyr digidol a Sianel Gymraeg ar ei phen ei hun fydd S4C am y tro cyntaf.
- 2.2 Bydd y gwasanaeth yn 2010 yn dilyn blaenoriaethau'r Strategaeth Cynnwys sy'n ymrwymo i gynnig darpariaeth amrywiol o safon uchel sy'n rhoi'r gwerth gorau i'r gynulleidfa. Mae gwaith ymchwil ansoddol a meintiol cyson gyda'r gwylwyr yn cyfrannu at y broses o gynllunio'r arlwy. Mae'r hinsawdd economaidd yn gosod her ychwanegol i'r Sianel. Mae cynlluniau eisoes ar waith i gyflawni'n dyheadau yn wyneb ffactorau economaidd anodd. Mewn partneriaeth gyda'n cynhyrchwyr byddwn yn gwireddu ein hawydd i weithio mewn ffyrdd dyfeisgar a chreadigol er mwyn cyflawni'n huchelgais.

- 2.3 Darlledwr gwasanaeth cyhoeddus yw S4C, ac mae'n rhaid i'r ddarpariaeth ateb y gofynion sy'n angenrheidiol i gyflawni'r swyddogaeth honno. S4C yw cartref digwyddiadau o ddiddordeb Cymreig, byddwn yn cryfhau ac ehangu ein gwasanaeth yn y maes hwn. Mae'r Eisteddfodau, Sioeau Amaethyddol, Perfformiadau Cerddorol a Digwyddiadau ym myd chwaraeon yn gyfuniad o'r cenedlaethol a'r lleol. Mae'r darllediadau o'r Digwyddiadau yn ddolen amlwg a chadarn rhwng S4C a'i chynulleidfa.
- 2.4 Mae 2010 yn flwyddyn Etholiad Cyffredinol. Bydd ein darpariaeth wleidyddol yn gyflawn a chynhwysfawr ac yn rhoi gwybodaeth a chyd-destun i'r gynulleidfa gan gyfrannu at eu dealltwriaeth. Byddwn hefyd yn sicrhau dealltwriaeth eang o ofynion y Cod Darlledu a chanllawiau cydymffurfiaeth S4C er mwyn sicrhau didueddrwydd dyladwy.
- 2.5 Er mwyn adlewyrchu a chryfhau ein hunaniaeth ddiwylliannol, fe fydd gwasanaeth diwylliant newydd yn cael ei lansio yn 2010. Bydd yn cynnwys rhaglenni cylchgrawn yn yr oriau brig a rhaglenni trafod newydd gyda'r hwyr.
- 2.6 Byddwn yn ysgogi diddordeb mewn hanes, natur a phynciau eraill trwy gyfrwng cyfresi newydd fydd yn cyflwyno'r meysydd mewn modd hygyrch gan ehangu gorwelion a gwella adnabyddiaeth ohonom ni fel Cymry.
- 2.7 Yn dilyn llwyddiant gwasanaeth **Cyw** i'r plant ieuengaf byddwn yn parhau i ymestyn ein darpariaeth ar gyfer plant o bob oed. Bydd gwasanaeth newydd sbon i blant hŷn yn cael ei gyflwyno ym mis Ebrill. Byddwn hefyd yn ymestyn y ddarpariaeth i blant ar y penwythnosau. Byddwn yn cwblhau'r gwaith paratoi ar gyfer gwasanaeth newydd i'r rhai dros 14 oed yn ystod y flwyddyn er mwyn ei gyflwyno yn 2011.
- 2.8 Sianel Gymraeg ar ei phen ei hun fydd S4C erbyn Ebrill 2010. Bydd gwasanaeth cyflawn Cymraeg yn cael ei gynnig o 0700 y bore tan yr hwyr. Gwasanaeth i blant iau fydd yn cael ei ddarlledu yn y bore. Fe fydd arlwy'r prynhawn yn gyfuniad o raglenni gwreiddiol, defnydd o'r archif, ailddarllediadau a'r gwasanaeth newydd i blant hŷn. Yr oriau brig fydd y flaenoriaeth. Byddwn yn sicrhau buddsoddiad priodol yn yr oriau hyn er mwyn cynnig rhaglenni o'r safon uchaf. Byddwn yn darlledu rhagor o gynnwys gwreiddiol yn ystod oriau'r hwyr.
- 2.9 Byddwn yn parhau i ostwng nifer yr ailddarllediadau o'r un rhaglenni o fewn cyfnodau penodol. Yn unol â dymuniad nifer o'n gwylwyr byddwn yn gwneud defnydd pellach o archif gyfoethog y sianel yn ogystal ag ailfersiynu elfennau o'r archif.
- 2.10 Byddwn yn mynd ati i nodi, hybu a dathlu amrywiaeth ar ac oddi ar y sgrin, gan weithio gyda'n cynhyrchwyr i wella cynrychiolaeth ar draws ein gwasanaeth.
- 2.11 Mae ein darpariaeth band llydan yn nodwedd bwysig o'n gwasanaeth a byddwn yn parhau i roi pwyslais ar rôl y llwyfannau eraill yn y gwaith o ymestyn effaith a chyrhaeddiad ein cynnwys i'r eithaf.

3. Newyddion a Materion Cyfoes

- 3.1 Fel darlledwr cyhoeddus fe fydd gwasanaeth newyddion S4C yn cydymffurfio â thargedau Ofcom ar gyfer 200 awr o newyddion dros yr holl oriau Cymraeg gyda 150 awr yn yr oriau brig. Yn 2009 cyflwynwyd gwasanaeth newyddion ehangach gyda bwletinâu yn cael eu darlledu yn ystod y prynhawn ac yn hwyrach yn y nos, bydd y mwyhad yma'n parhau yn 2010.
- 3.2 Er mwyn sicrhau plwraliaeth a chael safbwyntiau golygyddol gwahanol o fewn ein gwasanaeth byddwn yn parhau i dderbyn ein rhaglenni materion cyfoes a ffeithiol newyddiadurol gan fwy nag un cyflenwr. Yn 2010 fe fydd ITV Cymru yn cynhyrchu cyfresi o'r **Byd ar Bedwar** a'r gyfres newyddiadurol i gynulleidfa ifanc **Hacio**. Byddwn yn darlledu cyfres **Arian mewn Argyfwng** sydd yn rhoi cyd-destun byd-eang i'r sefyllfa economaidd bresennol ac yn darlledu rhaglenni unigol ar faterion cyfredol o bwys. Bydd BBC Cymru yn darparu cyfresi **Taro 9 a Pawb a'i Farn** a'r rhaglen wleidyddol **CF99**.
- 3.3 Mae pob cyfnod etholiad yn dod ag amlygrwydd i'r ddarpariaeth newyddion a materion cyfoes ac yn gyfle gwych i gyflawni uchelgais newyddiadurol. Byddwn yn gwneud pob ymdrech i sicrhau fod y gwasanaeth yn serennu trwy arddangos hygredded ac arbenigedd mewn modd hygyrch ac awdurdodol. A chydag Etholiad Cynulliad yn 2011 bydd y seiliau a osodir yn 2010 yn fodd i hybu ymhellach hygredded darpariaeth etholiadol y flwyddyn ganlynol.

4. Digwyddiadau a Theledu Achlysur

4.1 Yn 2009 ehangodd S4C nifer y digwyddiadau Cymreig sy'n cael sylw gan y Sianel. Bydd y ddarpariaeth honno yn cael ei hymestyn ymhellach yn 2010. Unwaith eto fe fydd gwasanaethau cynhwysfawr ac estynedig yn cael eu cynnig o **Eisteddfod Genedlaethol Blaenau Gwent a Blaenau'r Cymoedd, Eisteddfod yr Urdd Ceredigion ac Eisteddfod Gerddorol Rhyngwladol Llangollen**. Yn ogystal â'r ddarpariaeth gynhwysfawr o'r **Sioe Frenhinol a'r Ffair Aeaf** bydd rhaglen arbennig o'r **Sioe Tyddyn a Gardd** yn cael ei gynnig am y tro cyntaf fel rhan o'r pecyn darpariaeth o Lanelwedd. Byddwn yn darlledu'r **yl Gerdd Dant**, Cystadleuaeth **Cân i Gymru, Eisteddfod y Ffermwyr Ifanc** yn ogystal â pherfformiadau cerddorol amrywiol a gwyliau poblogaidd. Byddwn yn torri ar draws yr amserlen i ddarlledu prosiectau uchelgeisiol fydd yn creu argraff ar y gynulleidfa.

5. Plant

5.1 Yn dilyn llwyddiant gwasanaeth **Cyw** i'r plant ieuengaf byddwn yn parhau â'n dyhead i ymestyn ein darpariaeth ar gyfer plant o bob oed. Bydd darpariaeth newydd sbon i blant hŷn yn cael ei gyflwyno ym mis Ebrill. Bydd y ddarpariaeth yn cynyddu nifer yr oriau gwreiddiol o raglenni a ddarlledir ar gyfer plant o 7 tan eu harddegau cynnar. Fe fydd y ddarpariaeth ar gyfer plant yr oedran yma hefyd yn cael ei ymestyn i'r penwythnos. Bydd cyfresi newydd sbon ym meysydd busnes, hanes, ffordd o fyw, cwisiau a rhaglenni natur a cherddorol. Bydd y gwasanaeth yn adlewyrchu pob rhan o Gymru yn ddyfeisgar, gwreiddiol, cyffrous ac amrywiol.

5.2 Bydd gwasanaeth **Cyw** yn cael ei ymestyn i'r penwythnosau yn Hydref 2010. Yn rhan o'r arlwy bydd cyfres newydd o'r ddrama hwyliog llawn cymeriadau **Cei Bach**. Bydd cyfresi newydd o'r comedi **Twm Tisian**, y gyfres animeiddiedig **Igam Ogam** ac **Yn yr Ardd**. Bydd cyfres ffeithiol newydd sbon i blant oedran meithrin sy'n edrych ar ddiwrnodau mawr ym mywydau plant bach.

5.3 Byddwn yn cwblhau'r gwaith paratoi ar gyfer gwasanaeth newydd i'r rhai dros 14 oed yn ystod y flwyddyn er mwyn ei gyflwyno yn 2011.

6. Chwaraeon

6.1 Cymru fydd cartref Cwpan Ryder 2010. Bydd yr achlysur enfawr yn ddigwyddiad byd-eang a bydd S4C yn cynnwys uchafbwyntiau o'r chwarae a'r achlysur yn cael ei adlewyrchu mewn rhaglenni arbennig o Gasnewydd dan faner ein cyfres **Golffio**. Mae S4C hefyd wedi sicrhau'r hawliau i ddangos criced ar y Sianel. Bydd pump o gemau Cwpan Ugain Pelawd o blith gemau cartref Morgannwg yn cael eu darlledu'n fyw ac ecsgliwsif sydd yn cyfoethogi ein darpariaeth o ddigwyddiadau Cymreig. Yn cyfrannu at y strategaeth honno bydd rhaglenni o **Ras yr Wyddfa, Marathon Eryri, Rasmus Tregaron a Ralio**.

6.2 Mae ein pecyn sylweddol o hawliau rygbi yn sicrhau darpariaeth o gemau rhyngwladol Cymru, Cynghair Magners, Cynghair y Principality, Cwpan Swalec, Cwpan Heineken, Cwpan Eingl Gymreig yr LV a chystadleuaeth Saith bob Ochr yr IRB. Mae'r cyfan yn rhoi cyfle i'r Sianel ddenu cynulleidfaoedd sylweddol a chyrhaeddiad uchel. O dan faner **Sgorio** bydd sylw i bêl-droed yng Nghymru, Ewrop a thu hwnt.

7. Ffuglen, Comedi ac Adloniant

7.1 Bydd cyfres ddrama newydd sbon **Pen Talar** yn edrych ar fywyd dau frawd yng nghyd-destun hanes cymdeithasol a diwylliannol Cymru dros yr hanner can mlynedd ddiwethaf. Bydd cyfres newydd o'r ddrama boblogaidd **Teulu**. Bydd pumed gyfres o'r ddrama gyffrous **Caerdydd** yn cael ei darlledu yn y Gwanwyn. Hon fydd y gyfres olaf. Bydd fersiwn deledu o'r ffilm heriol **Cw cw** yn cael ei darlledu yn ogystal â dramâu unigol eraill. Bydd **Pobol y Cwm** a **Rownd a Rownd** yn parhau yn gonglfeini'r amserlen ddrama.

7.2 Bydd digon o chwerthin hefyd mewn cyfresi newydd o **Tudur Owen o'r Doc** a **Noson Lawen**.

7.3 Bydd cyfresi newydd o'r rhaglenni adloniant ffeithiol poblogaidd **Bro, Cofio** a **Byw yn yr Ardd**. Byddwn hefyd yn cyflwyno sawl cyfres ffordd o fyw newydd i arlwy'r sianel.

8. Ffeithiol, Diwylliant, Cerddoriaeth a Chrefydd

- 8.1 Byddwn yn adlewyrchu a chryfhau hunaniaeth ddiwylliannol yn ogystal â chodi ymwybyddiaeth o ddiwylliannau eraill wrth gyflwyno darpariaeth newydd sbon ym maes diwylliant eleni. Bydd cyfres gylchgrawn yn ymdrin â'r celfyddydau a thraddodiadau cynhenid Cymreig yn cael ei darlledu yn yr oriau brig, a rhaglenni fydd yn trafod diwylliant, syniadau a phynciau dwys a llosg i'w gweld yn oriau'r hwyr. Mewn cyfres newydd arall fe fyddwn yn edrych ar hanes beirdd Cymru trwy lygaid beirdd cyfoes.
- 8.2 Mae cerddoriaeth yn rhan allweddol o'n darpariaeth, gyda chyfresi yn 2010 fydd unwaith eto yn arddangos rhagoriaeth greadigol. Bydd cantorion a chorau o Gymru sydd wedi serennu yma a thu hwnt yn ganolbwynt i'r rhaglenni. Bydd y cyfresi gyda Shan Cothi, Elin Manahan Thomas, Only Men Aloud a Chôr Glanaethwy yn gyfle i ddathlu a mwynhau talent a llwyddiant y Cymry.
- 8.3 Trwy gyfrwng gwyliau cerddorol, rhifynnau arbennig o raglen **Bandit**, y gyfres **Nodyn** a **Gofod** bydd sylw i gerddoriaeth gyfoes a'r sin roc Cymreig.
- 8.4 Yn **Dechrau Canu Dechrau Canmol** byddwn yn parhau i gyflwyno canu cynulleidfaol a pherfformiadau o safon uchel. Bydd cyfres newydd o'r rhaglen grefyddol ysbrydol **Y Daith** ar nos Sul, yn ogystal â chyfres unigryw a gyflwynir gan Archesgob Cymru.
- 8.5 Bydd cyfresi poblogaidd eu hanian yn edrych ar hanes cymdeithasol y Cymry yn rhan o'r amserlen yn 2010. A byddwn yn teithio dramor wrth i Iolo Williams edrych ar orffennol a dyfodol Indiaid Brodorol America, a dilynwn daith emosiynol Bethan Gwanas wrth iddi ddychwelyd i Gbara yn Affrica.
- 8.6 Bydd y cyfresi dyddiol poblogaidd ac amrywiol **Wedi 3** ac **Wedi 7** yn parhau i ddod â straeon o bob rhan o Gymru i'r sgrin yn ystod dyddiau'r wythnos.
- 8.7 Bydd tirlun a daeareg Cymru yn ganolbwynt cyfres newydd sbon gyda Iolo Williams, **Tir Cymru**, a'r tirlun yn cael ei ddathlu ymhellach mewn cyfres yn canolbwyntio ar straeon a harddwch y Fenai. Mae rhaglenni gwledig yn parhau'n rhan allweddol o'r amserlen wrth i gyfresi fel **Cefn Gwlad** a **Ffermio** ddychwelyd.

9. Gwybodaeth Ychwanegol

- 9.1 Cred S4C yn yr angen i hyrwyddo amrywiaeth, cyfleoedd cyfartal a thriniaeth deg. Byddwn yn cynnal ymgyrch bositif i godi ymwybyddiaeth a hyrwyddo ystod llawn amrywiaeth yn ein cynnwys a'n gwasanaethau sy'n cynnwys is-deitlo ac arwyddo. Byddwn yn cydweithio gyda'n partneriaid yn y sector er mwyn sicrhau fod eu cyfraniad i gyflawni dyheadau S4C.
- 9.2 Cynlluniwyd ein gwasanaeth isdeitlo Cymraeg ar gyfer y byddar a'r trwm eu clyw Cymraeg eu hiaith, dysgwyr Cymraeg, a'r rhai sy'n llai hyderus yn eu Cymraeg. Lle mae hawliau'n caniatáu fe fyddwn yn cynnig is-deitlau Saesneg ar ein holl raglenni. Byddwn yn cwrdd â thargedau Ofcom ar gyfer isdeitlau ar S4C
- 9.3 Ar rai rhaglenni ar S4C Digidol bydd gwasanaeth llun-ddisgrifio yn rhoi disgrifiadau ychwanegol yn y Gymraeg, gan gynnwys sylwebaeth lafar i lenwi'r cyfnodau heb ddeialog, i alluogi gwylwyr sydd â phroblemau gweld i fwynhau'r rhaglen. Bydd y sylwebaeth yn cynnwys disgrifiadau o ddilyniant mewn plot, mynegiant gweledol, iaith y corff, gwisg a golygfeydd (yn unol â thargedau Ofcom). Byddwn yn darparu arwyddo ar rai rhaglenni ar S4C Digidol ar ochr y sgrin er mwyn dehongli'r rhaglen mewn iaith BSL. Paratoir y gwasanaeth ar gyfer gwylwyr byddar, ac fe fydd y cyflwynydd yn cyfleu'r rhaglen mewn dull sy'n addas ar gyfer cynulleidfa sydd ar y cyfan yn byw yng Nghymru, neu sy'n medru derbyn S4C ar lwyfan Sky yn y DU. Byddwn yn parhau i ddarlledu nifer o ailddarllediadau ein rhaglenni mwyaf poblogaidd gydag isdeitlau agored (gan gynnwys ailddarllediadau **Pobol y Cwm**).
- 9.4 Rydym yn trafod gyda grwpiau perthnasol i sicrhau defnyddioldeb ac addasrwydd ein holl wasanaethau mynediad.
- 9.5 Bydd ymrwymiad S4C i'r rhai sy'n dysgu Cymraeg yn parhau ar ffurf yr adnodd ar-lein sefydliedig <http://www.s4c.co.uk/dysgwyr>
- 9.6 Byddwn yn darlledu S4C mewn manylder uwch yn gydamserol ar deledu digidol daearol yn y Gwanwyn. Byddwn yn gweithredu yn unol â'n nod o sicrhau fod ein rhaglenni wedi eu cynhyrchu mewn manylder uwch erbyn 2012.

- 9.7 Bydd S4C digidol ar gael ar DTT a chebl yng Nghymru, ac ar fand llydan a lloeren yn y Deyrnas Unedig. Byddwn yn sicrhau bod S4C yn cael ei darlledu ar analog yng Nghymru hyd nes y bydd y rhaglen trosglwyddo i ddigidol wedi dod i ben ym mis Mawrth. Bydd S4C yn adolygu yn gyson ac adnabod cyfleoedd er mwyn cynnig ein gwasanaethau ar lwyfannau eraill yn y Deyrnas Unedig a thu hwnt.
- 9.8 Byddwn yn cwblhau'r broses o adolygu ein Canllawiau Iaith er mwyn sicrhau eu bod yn ddigon blaengar ac addas i ymdrin â'r newidiadau ieithyddol a chymdeithasol yng Nghymru.
- 9.9 Byddwn yn parhau i weithio er mwyn taro'r cydbwysedd rhwng sicrhau effaith a chyrhaeddiad rhaglenni unigol trwy eu hail-ddarlledu, a sicrhau nad yw hyn ar draul mwynhad y gynulleidfa sy'n gwylio'n gyson. Mewn wythnos arferol bydd llai na 15% o'r rhaglenni yn yr oriau brig (18:30 – 21:30) yn ailddarllediadau.
- 9.10 Byddwn yn parhau i gynnal ymchwil ansoddol a meintiol i asesu barn gwylwyr ac yn ystyried y canlyniadau a goblygiadau wrth gynllunio ein gwasanaethau ac yn yr adolygiad blynyddol o'r Strategaeth Cynnwys.
- 9.11 Byddwn yn darparu gwybodaeth am ein gwasanaethau ac yn derbyn sylwadau neu gwynion gan ein gwylwyr ar ein Gwefan Gwylwyr ac mewn cyfarfodydd cyhoeddus.
- 9.12 Byddwn yn cynhyrchu cylchgrawn Sgrîn sy'n darparu gwybodaeth am ein rhaglenni.
- 10. Hyfforddiant**
- 10.1 Bydd S4C yn parhau i gydweithio er mwyn sicrhau trefniadau addas a chyfrannu at godi lefel sgiliau yn fewnol ac yn y sector gynhyrchu. Byddwn yn cyfrannu at waith y fframwaith a Skillset. Byddwn yn parhau i fuddsoddi mewn hyfforddiant i'r diwydiant yng Nghymru.
- 10.2 Bydd S4C yn parhau i gynnig cymorth ar ffurf bwrsari neu ysgoloriaethau yn gyson â'n blaenoriaethau strategol. Yn ystod 2010 bydd ysgoloriaeth a dosbarth meistr i ddau golffiwr ifanc, byddwn yn cynnig ysgoloriaeth T Glynne Davies i fyfyrwr yng Nghanolfan Astudiaethau Newyddiadurol Prifysgol Caerdydd. Byddwn yn cynnig ysgoloriaeth i fyfyrwr yn yr Ysgol Genedlaethol Ffilm a Theledu (NFTS).